



Sicrhau bod ein heglwysi'n gynnes a chroesawgar

Mae cyrraedd gwasanaeth bedydd mewn eglwys yn gallu achosi straen i deuluoedd!

Mae dim ond gwisgo a chael eu hunain allan o'r tŷ yn gallu bod yn anodd, heb sôn am boeni a fydd y plant yn ymddwyn yn dda, yn aros yn llonydd a thawel, yn peidio â gweiddi rhywbeth amhriodol, a fyddan nhw angen mynd i'r toiled, ac angen eu bwydo. Does dim syndod felly fod rhai teuluoedd yn dewis aros 'nes bod y plant yn hŷn'.



Gall cynnig croeso cynnes, dilys wneud gwahaniaeth mawr i helpu teuluoedd i setlo yn eich cynulleidfia. Dyma rai awgrymiadau sydd wedi bod yn effeithiol mewn eglwysi, nid i wasanaethau bedydd yn unig ond i bob math o wasanaethau.

Croeso gyda gwên

Dywedwch wrth yr ystlyswyr am wenu wrth iddyn nhw groesawu teuluoedd. Bydd agor drysau trwm i helpu rhieni sydd eisoes yn cael trafferth gyda bygi, plentyn bach a bag newid yn dangos gofal ymarferol.

Atebion eistedd

Nid yw'n hawdd gweld ble mae yna ddigon o le i deulu eistedd gyda'i gilydd bob amser. Gall ystlyswyr a wardeniaid weld ble mae'r llefydd, hebrwng teuluoedd iddyn nhw a gofyn i bobl symud a gwneud lle os oes angen.

Mae seddi eglwys wedi'u cynllunio ar gyfer oedolion fel arfer. Ewch â dwy neu dair sedd godi neu glustogau sy'n eistedd yn ddiogel ar seddi neu gadeiriau'r eglwys i helpu plant i weld beth sy'n digwydd.

Ffrindiau Bedydd

Mae ymchwil yn dangos bod cysylltiadau'n gwneud gwahaniaeth mawr i helpu pobl newydd i deimlo croeso yn yr eglwys. Mae'n haws dod os ydych chi'n gwybod y byddwch chi'n adnabod rhywun a fydd yn siarad â chi.



Gwahoddwch aelodau sefydledig o'r eglwys sydd â phlant ifanc i fod yn Ffrindiau Bedydd, gan eu paru â theuluoedd Bedydd neu deuluoedd newydd eraill. Ewch ati i feithrin cysylltiadau drwy anfon gwahoddiadau personol i ddigwyddiadau yn yr eglwys, cylchoedd plant bach, taith gerdded yn y parc neu gyfarfod am goffi.

Beiblau, llyfrau a bagiau

Weithiau mae plant angen rhywbeth ychwanegol i'w helpu i setlo mewn gwasanaeth eglwysig. Gall bagiau lliain yn cynnwys detholiad o Feiblau neu lyfrau straeon o'r Beibl i blant bach, creonau a phapur, neu degan meddal helpu rhieni yn yr adegau anodd hynny. (DS mae'n siŵr nad yw bocs yn llawn o deganau swmlyd yn syniad da!).

Aros am ddiod

Os yw'r eglwys yn cynnig paned ar ôl y gwasanaeth gwnewch yn siŵr bod rhywun yn dangos i deuluoedd newydd ble mae hynny'n digwydd. Rhewch ddŵr neu sudd ffrwythau mewn cwpanau plant a byddwch yn hael gyda'r bisgedi! Bydd bwrdd a chadeiriau isel yn ei gwneud hi'n haws i rai plant yfed eu diodydd.

Canmol plant bach

Does dim rhaid i eglwys ddigwydd ar ddydd Sul! Efallai y bydd rhai rhieni yn ei chael hi'n haws dod i wasanaeth byr addas i blant yn ystod yr wythnos. Crëwch strwythur sydd â digon o ailadrodd, caneuon gyda symudiadau, stori o'r Beibl yn defnyddio teganau neu ddeunyddiau 3D a gweddïau syml yna amser i chwarae a sgwrsio. Efallai y byddai aelodau hŷn yr eglwys yn mwynhau dod i adnabod y teuluoedd wrth iddyn nhw weini coffi a sudd.

Pen-blwydd Hapus (deulu'r eglwys)

Mae pob teulu'n cofio pen-blwyddi – felly anogwch deulu'r eglwys i gofio pen-blwyddi bedydd. Gofynnwch i berson trefnus fod yn gyfrifol am anfon cardiau, gyda gwahoddiad i gylch plant bach neu ddigwyddiad addas i blant yn yr eglwys o bosibl. Dylech gynnwys manylion cyswllt fel bod y teulu'n gwybod sut i gysylltu.

Pethau i'w gwybod.....

Cynlluniwch daflen syml sy'n amlinellu popeth sydd ar gael i deuluoedd – gwasanaethau i blant bach, cylchoedd chwarae, crèche/grwpiau Sul ac ati. Mae lluniau o'r bobl sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau (a'u manylion cyswllt) yn ei wneud yn fwy personol ac yn haws i deuluoedd newydd wybod pwy i'w holi.



Efallai y bydd teuluoedd am wybod ble mae'r toiledau, pa mor hir fydd y gwasanaethau, ble mae hi'n iawn bwydo ar y fron a ble i gael gwybodaeth am fedyddio.

Os oes gennych chi sawl taflen rhowch nhw gyda'i gilydd i greu Pecyn Croesawu Teuluoedd. Dylech gynnwys maged oergell gyda llun o'r eglwys, amseroedd gwasanaethau a manylion cyswllt fel bod ganddyn nhw'r wybodaeth yn hawdd wrth law.

Amser Toiled

Mae toiledau glân, gyda seddi toiled plant a step godi, yn llawer mwy croesawgar i deuluoedd na thoiledau budr. Mae mat newid y gellir ei sychu'n lân, gyda sachau cewynnau a chyfarwyddiadau clir ar ble i daflu cewynnau budr, yn bwysig hefyd. A chofiwch wirio bod digon o sebon, papur toiled a thyweli llaw ar gael.

Amser Lluniau

Edrychwch o'r newydd ar eich taflenni gwasanaethau. Pa mor hawdd i'w dilyn ydyn nhw os ydych chi'n newydd i'r eglwys? Bydd darluniadau syml, priodol yn eu gwneud yn fwy deniadol a haws i'w dilyn i blant sydd ddim yn darllen eto.

Beth am gwrdd...

Weithiau mae angen rheswm (neu esgus) ar deuluoedd i gysylltu â'r eglwys eto. Trefnwch bicnic/barbeciw/te-parti a gwahoddwch deuluoedd sydd wedi cael bedydd yn ddiweddar neu sydd wedi dechrau dod i'r eglwys. Dylech gynnwys unrhyw ymwelwyr bedydd yn y gwahoddiad, ac ychydig o aelodau eraill o'r eglwys (rhai â phlant a heb blant). Bydd rhai gemau neu grefftiau syml wrth gyrraedd yn rhoi ffocws i bobl a chyfle iddyn nhw gymysgu.

Y R E G L W Y S
Y N G N G H Y M R U



THE CHURCH
IN WALES